

MEDI MEDRUS 2018

A Ddylai Robotiad Siarad Cymraeg?

Yn ystod yr Haf, fe wnaethom drefnu ein digwyddiad cyntaf ar faes [yr Eisteddfod Genedlaethol](#) ym Mae Caerdydd. Y testun dan sylw oedd 'A ddylai robotiaid siarad Cymraeg?' Dyma ymateb Meilys ac Indeg oedd ar y panel.

18/09/2018 Meilys Heulfryn Smith
Uwch Reolwr Trawsnewid
Cyngor Gwynedd
@MeilysHeulfryn

Pan ges i wahoddiad i gymryd rhan mewn sgwrs banel yn dwyn y teitl "A Ddylai Robotiaid Siarad Cymraeg?" yn [yr Eisteddfod Genedlaethol](#) ym mis Awst, f'ymateb greddfod oedd "be ar wyneb daear ydw i'n w'bod am robotiaid?" Ond, roedd o'n gyfle i drafod dyfodol fy iaith, a do'n i ddim am fethu'r cyfle hwnnw!

Yn raddol, fe wawriodd arna'i. Wrth gwrs 'mod i'n gwybod am robotiaid! Dwi'n siarad efo nhw bob dydd, mae nhw'n fy helpu gyda phob mathau o dasgau ac yn edrych ar fy ôl. Does 'na fawr ohonyn nhw'n edrych fel bodau dynol, ond mae nhw'n bendant yn siarad efo fi!

Erbyn hyn, dydw i ddim yn cario atlas, gwylio rhagolygon y tywydd na phrynu CDs. Mae gen i apps, offer amrywiol, bob mathau o 'chargers' a'r gallu i roi a derbyn gorchmynion heb i unrhyw berson fod yna. Dyna 'mywyd i. Cymraeg ydy fy iaith gyntaf ond yn raddol, dwi'n gweld bod nifer gynyddol o'r 'sgyrsiau' dwi'n eu cael drwy gyfrwng y Saesneg.

Yn ddiweddar, dwi wedi bod yn rhan o waith i ddatblygu profiad rhithwir i helpu pobl ddeall mwy am ddementia. Mae o'n bwnc sy'n ennyn llawer o emosiynau, ac roedd yn hanfodol bod y robot penodol hwn yn siarad Cymraeg a Saesneg. Fel arall, fyddai na ddim gobaith i bobl Cymru brofi, mor realistig â phosib, sut beth yw byw â dementia.

Roedd y [prosiect technoleg rhithwir](#) yma yn help i mi ddeall y gall technoleg siarad unrhyw iaith, os rhowch iddi gyfle ac os y caiff ei harfogi gyda geirfa a llais. Fyddai'r datblygiad dwyieithog hwn fyth wedi gweld golau dydd pe na baem wedi mynd ati i gomisiynu datblygiad dwyieithog, a sgriptiwr dwyieithog.

Mae technoleg yn rhan o fywydau cyffredin dydd i ddydd. Gallai adeiladu robotiaid Cymraeg ein helpu i gwrdd â'r targed i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Fe allwn, ac fe yden ni'n arloesi yng Nghymru, a hynny yn Gymraeg. Fe roddodd sgwrs banel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yr hyder i mi y byddwn yn cerdded law yn llaw â llawer mwy o robotiaid Cymraeg eu hiaith yn y dyfodol.



18/09/2018 Indeg Williams
@IndegElen

Os meddwl am 'robotiaid' fel Apple Siri, Amazon Alexa, Microsoft Cortana ac yn y blaen, mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o'r 'robotiaid' hyn yn siarad Saesneg. Er bod modd i chi reoli neu i holi eich ffôn symudol, cyfrifiadur neu'ch car yn Saesneg, mae rhestr hir o ieithoedd llai eu hadnoddau, fel y Gymraeg, sydd heb eu cefnogi gan y cwmnïoedd mawr hyn. Felly, ar y foment, dydy'r 'robotiaid' hyn ddim yn siarad Cymraeg. Ond dwi'n meddwl fod achos cryf y dylent.

Ar y foment, os hoffai deulu iaith Gymraeg ddefnyddio Alexa er enghraifft, mae'n rhaid i iaith y cartref newid i Saesneg. Oni ddylai siaradwyr Cymraeg gael y dewis i ddefnyddio'r Gymraeg os hoffent?

Er ei bod hi'n hwylus i allu cyfathrebu gyda'ch dyfeisiau, dylid cofio bod meysydd eraill all elwa o'r dechnoleg hon. Gall y cyfryngau eu defnyddio er mwyn archifo a chatalogio eu gwaith. Gall ysgolion ddefnyddio'r dechnoleg o fewn dosbarthiadau neu ddysgwyr hŷn fel offer ymarfer. Yn bwysicach fyth o bosib yw ei defnydd yn y maes iechyd. Drwy brosiectau fel Lleisiwr, mae modd defnyddio'r dechnoleg hon er mwyn bancio lleisiau cleifion a fyddai fel arall wedi colli eu Cymraeg am byth.

Rydw i ynghyd ac Uned Technolegau Iaith, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor yn casglu lleisiau Cymraeg er mwyn hyfforddi [Macsén](#), ein cynorthwydd personol deallus, i siarad Cymraeg. Y mwyaf o esiamplau sydd gan Macsén, y gorau fydd oll fydd y 'robot' hwn yn gweithio. Drwy gyfrannu eich lleisiau Cymraeg at apiau fel Paldaruo neu Mozilla CommonVoice, rydych yn cefnogi'r ymgyrch hon i sicrhau dyfodol digidol i'r iaith Gymraeg.

Mae ein ffordd o gyfathrebu wedi gwednewid ac mi fydd hi'n parhau i wneud. Mae'n dod yn bur amlwg fod technoleg fel hyn yn rhan hollbwysig o sicrhau dyfodol ein hiaith ar gyfer y cenedlaethau nesaf.

MEDI MEDRUS 2018

Bacc neu ddim?

Mae Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar statws y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cau HEDDIW. Gallwch ddod o hyd i fwy o fanylion ar yr ymgynghoriad [yma](#).

Dyma farn dau o bobl ifanc ar y cymhwyster.

20/09/2018

Ethan Williams
@ethanwilliams28

Mae'r faglورياeth Cymraeg yn rhoi llwyth o gyfleoedd i fyfyrwyr i ddysgu sgiliau newydd a'i defnyddio nhw yn ymarferol wrth gyflawni prosiectau a thasgau, yn enwedig y radd uwch, sy'n cael ei chyflawni yn ystod flynyddoedd deuddeg a thair a'r ddeg yn yr ysgol, hynny yw yn ystod astudiaethau Lefel A. Mae'n rhoi sawl cyfle i fyfyrwyr trio pethau newydd ac mae gwahanol elfennau o'r cwrs ac sy'n siwtio pawb ac i siwtio'r ffyrdd gwahanol y mae myfyrwyr yn dysgu. E.e. trwy weithio fel tîm, neu'n unigol, defnyddio sgiliau iaith a rhifedd ac mae hyd yn oed yn rhoi cyfle i'r bobl ifanc creu prosiect creadigol fel cân neu ffilm yn ystod yr ymchwiliad unigol.

Yr Ymchwiliad unigol oedd y rhan a oedd o fwyaf o fudd i mi. Mae'n llawn sgiliau sy'n holl bwysig wrth symud ymlaen i addysg bellach yn y brifysgol ac yn bellach eto unwaith i mi ddechrau gweithio. Mae'r sgiliau yma'n cynnwys sut i wneud gwaith ymchwil, sut mae penderfynu pa wybodaeth neu ddata sy'n ddefnyddiol i'm mhwnc, sut mae penderfynu os mae ffynonellau yn ddilys neu beidio, a sut y mae ffeindio'r ffynonellau dibynadwy yn y lle cyntaf. Mae'n dysgu i chi sut y mae cynnal cyfweiliad neu holiadur a defnyddio'r data neu wybodaeth gynradd yma yn eich ymchwiliad i ddatblygu safbwynt neu farn. Yr oedd hefyd yn hanfodol i ddangos sgiliau rhifedd Lefel 3 neu'n uwch ac felly y mae'r Faglورياeth yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr i ddysgu'r sut mae defnyddio rhifedd yn effeithiol. E.e defnyddio gwiriad safonol i gyfrifo dilysrwydd pwyntiau data. Yn ogystal â hyn mae'r effaith ar sicrhau sgiliau cyfathrebu digidol da, a'r ffordd y mae'r prosiect yn cael ei strwythuro ac yn ymddangos ar ddogfen yn bwysig iawn, yn enwedig wrth baratoi i ysgrifennu traethodau hir yn y brifysgol, neu y bydd yn sgil bwysig ôl ymuno â'r weithle mewn unrhyw faes.

Mae'r heriau eraill fel Her y Gymuned a'r Her Menter yn helpu pobl i weithio fel tîm ac i drefnu amser yn gywir, gyda'r Her Menter yn galluogi pobl ifanc i ddysgu sut mae'r byd busnes yn gweithio a'r Her Dinasyddiaeth Byd Eang yn rhoi cyfle i ni ymchwilio mewn i ddiwylliant a ffyrdd gwahanol o fyw ar draws y byd.

Mae'r faglورياeth yn gymhwyster gwyb sy'n galluogi myfyrwyr o gefndiroedd gwahanol, gyda chryfderau a gwendidau gwahanol ffynnu mewn rhyw agwedd. Mae'n ffantastig hefyd gan ei fod yn rhoi cyfle i ddisgyblion sy'n ffeindio cyrsiau academiaidd arferol megis Hanes, Mathemateg neu'r gwyddorau yn heriol, neu i rheina sy'n ffeindio strwythur cyrsiau (h.y dysgu, adolygu, sefyll arholiad) yn anodd. Mae'r faglورياeth yn rhoi hwb ychwanegol i geisiadau UCAS myfyrwyr Cymru ac yn gwneud iddynt sefyll allan ymysg y degau o filoedd o bobl ifanc sy'n ymgeisio am lefydd prifysgolion pob flwyddyn. Er, credaf y dylai'r faglورياeth fod yn opsiynol i fyfyrwyr o achos i'r amser hir y mae'n ei gymryd i'w gyflawni.

20/09/2018

Matthew Williams
@mattjoseph93

Ewch chi i nunlle gyda normal, felly gwnewch rywbeth fydd yn eich gosod ar wahân

Daeth hi'n arferol i'r rhan fwyaf o bobl sy'n astudio Lefel-A yng Nghymru i astudio cymhwyster arall a elwir yn Fagloriaeth Gymreig yn ogystal. Mae'n teimlo fel amser maith ers i mi fod yn yr un sefyllfa, yn ôl yn 2011. Bryd hynny, roedd y Fagloriaeth yn gymhwyster newydd ac roeddwn i yn y flwyddyn gyntaf o ddisgyblion fy ysgol i gymryd rhan ynddi. Er, dyw'r ymadrodd 'cymryd rhan' ddim yn hollol addas, am mai cwrs gorfodol oedd hwn. Cefais fy nghynghori gan yr ysgol mai bwriad y Fagloriaeth fyddai rhoi'r un nifer o bwyntiau UCAS i fyfyrwyr â gradd A yn Lefel-A, ac y byddai'n ymestyn ein sgiliau cyfathrebu a rhifedd, ynghyd â rhoi cyfleoedd eraill i ni wirfoddoli a gweithio mewn timau. Er bod rhannau o hyn yn swnio'n ddigon apelgar, cofiaf yn glir fod rhywfaint o ddrwgdeimlad ymysg fy nghyfoedion am ein bod ni'n cael ein gorfodi i astudio rhywbeth heb ddim cyswllt â'r pynciau Lefel-A yr oeddem ni wedi dewis ymroi iddyn nhw. Roedd rhannau amrywiol y Fagloriaeth Gymreig yn ddigon uniongyrchol, ac roedden nhw'n cynnwys tasgau fel ysgrifennu traethawd 2500 o eiriau, gwneud cyflwyniad, gweithi mewn grŵp, sefyll prawf mathemateg a gwirfoddoli am 20 awr. Y broblem i mi gyda'r holl ymarferion hyn oedd fy mod i eisoes wedi bod yn gwneud y pethau hyn i gyd gydol fy ngyrfa yn yr ysgol, ac roedd hi'n anodd gen i weld sut roedd y cymhwyster yn darparu sgiliau newydd i mi.

Neidiwch ymlaen 7 mlynedd, a bellach rwyf wedi llwyddo i gael gradd Baglor a Meistr, wedi gweithio yn y sectorau ffasiwn, eiddo, addysg a darlledu – ond dwi'n dal yn ansicr sut y cefais fy helpu yn hynny i gyd gan y Fagloriaeth. Ar ôl cael canlyniadau da yn Lefel-A, doedd dim angen y Fagloriaeth arnaf i sicrhau lle mewn Prifysgol. Ac ar ben hynny, does yr un cyflogwr erioed wedi gofyn i mi amdano, pa sgiliau a ddeilliodd ohono, neu sut y gallai fy mhrofiad wrth ei astudio fod o fudd i'w busnes. I mi, mae hyn yn awgrymu dau bosibilrwydd: nad yw cyflogwyr yn gwybod beth yw'r Fagloriaeth Gymreig, neu eu bod nhw yn gwybod, ond eu bod wedi dod i'r casgliad nad yw'n gymhwyster perthnasol.

Barn gul a henffasiwn yw ystyried mai cymhwyster cyffredinol yw'r ateb i helpu pobl ifanc i symud i'r cam nesaf yn eu bywyd. Mae'n bwnc llosg yn y cyfryngau fod myfyrwyr yn dewis astudio am raddau nad ydyn nhw'n darparu sgiliau ymarferol ar gyfer y gweithle, ac sy'n gallu llesteirio'u gyrfa yn hytrach na'i hybu. Yr hyn sy'n cael ei anghofio'n aml mewn dadl fel hon yw'r camau sy'n digwydd cyn mynd i Brifysgol. Efallai y byddai gan bobl ifanc ymdeimlad cryfach o'u hunaniaeth eu hunain a'r hyn y maen nhw'n dymuno'i gael gan y byd pe bai rhywun yn dweud wrthynt am feddwl o ddifri'n fwy gofalus beth maen nhw eisiau'i wneud yn iau. Er fy mod i'n cytuno na ddylem ni gael ein cyfyngu i un llwybr gyrfaol am weddill ein bywyd o 16 mlwydd oed ymlaen, rydw i YN meddwl fod agwedd di-ddangos-ochr yn cael ei ynnal yn sgil cymwysterau cyffredinol, gan gynnwys y Fagloriaeth Gymreig.

Os yw'r system addysg eisiau helpu pobl ifanc Cymru, yna rhaid iddi roi'r gorau i wthio cyrsiau cyffredinol gorfodol arnyn nhw. Mae doethineb rhoi cymhwyster i rywun a rennir gan bawb, er mwyn eu helpu i fod yn berthnasol mewn marchnad swyddi orlawn, yn hollol henffasiwn. Os yw pobl ifanc am osod eu hunain ar wahân, rhaid iddyn nhw ddefnyddio'u menter eu hunain i fynd allan a chyfrannu rhywbeth at gymdeithas yn eu maes diddordeb cydnabyddedig nhw. Dylai ysgolion fod yn annog myfyrwyr i fynd ati i sefydlu busnesau e-fasnach, helpu cwmnïau nid-er-elw, neu archwilio'r diwydiant cychwyn technoleg.

Roedd pwy bynnag ddywedodd fod llai yn fwy yn gywir; po leiaf o amwysedd sydd yn eich llwybr gyrfaol, a pho leiaf o ymlyniad â chymwysterau niwlog, yna'r mwyaf o sylw sydd gennych i ganolbwyntio ar beth sydd wir yn digwydd yn y byd, a beth rydych chi wir eisiau'i wneud ynddo.

MEDI MEDRUS 2018

Mynd i'r afael â byd gwaith sy'n newid

27/09/2018

Eliza Easton, Prif Ymchwilydd Polisi, Economi Creadigol a Dadansoddiad Data

Rob Ashelford, Cyd-arweinydd a Phennaeth Y Lab (Rhaglenni)

Yn Nesta rydyn ni wedi treulio llawer o amser dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn meddwl am ddyfodol byd gwaith.

Yn sicr mae yna heriau'n ein hwynebu, ac oni bai ein bod yn ceisio deall sut y gellid lliniaru effeithiau negyddol, byddwn yn gwneud bywyd y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn anoddach – y rhai hynny heb deulu i'w cefnogi os byddant angen ailhyfforddi, neu rai sydd mewn swyddi heb amddiffynfa ddigonol i weithwyr.

Mae cerdded i mewn i'ch archfarchnad leol a gweld bod yr ariannwr wedi ei dd/disodli gan beiriant hunanwasanaeth yn ddigon i'ch atgoffa am effaith seismig technolegau ar swyddi.

Os ydyw Cymru'n mynd i wireddu galwadau [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) – gan greu, ymhlith pethau eraill Gymru lewyrchus fwy cyfartal – mae angen i bawb, o'r rhai sy'n creu polisi i'r rhai sy'n cael eu cyflogi, i wybod a deall mwy am natur gwaith yn y dyfodol – y sgiliau sydd arnom eu hangen a ble byddant yn debygol o fod yn angenrheidiol.

Tueddiadau'r dyfodol

Er mwyn medru deall y dyfodol, edrychodd Nesta ar effaith tueddiadau yn cynnwys awtomatiaeth, yr 'economi gwyrdd' sy'n tyfu, a newidiadau demograffig ar y gweithlu i fyny at 2030. Rhagwelodd y [darn hwn o ymchwil](#), mewn partneriaeth â Pearson, bod tua 10 y cant o weithwyr mewn galwedigaethau y disgwylir iddynt dyfu eu cyfran o'r gweithlu, tra bo 20 y cant mewn galwedigaethau y disgwylir iddynt leihau.

Yn ogystal â newidiadau yn y farchnad swyddi, rhagwelwyd pa sgiliau sylfaenol y bydd – neu na fydd – alw amdanynt yn y dyfodol. Yn arbennig amlygwyd yr angen cynyddol am grŵp o sgiliau 'meddal' a gwybyddol – o ddatrys problemau i sgiliau cyfathrebu – ochr yn ochr â gwybodaeth mewn meysydd eang yn cynnwys Saesneg, athroniaeth a gwyddoniaeth.

Ond mae hefyd yn debygol y bydd angen niferoedd cynyddol o sgiliau technegol a digidol drwyddi draw mewn swyddi yn y dyfodol. A dros y byd i gyd, yn cynnwys Cymru, mae llywodraethau wedi ceisio mynd i'r afael â rhai o'r heriau a fydd yn ymddangos yn y dyfodol drwy 'fuddsoddi mewn sgiliau digidol'.

Edrychodd ein papur ar ['gyflogaeth a sgiliau digidol yn y dyfodol'](#) ar 41 miliwn o hysbysebion swyddi, i adnabod y sgiliau digidol hynny sydd eu hangen ar hyn o bryd yn y swyddi hynny sydd fwyaf tebygol o dyfu erbyn 2030, a'r rhai hynny yn y swyddi sydd fwyaf tebygol o ddiflannu.

Efallai y bydd yr hyn a ddarganfuwyd gennym yn peri syndod. Mae'r "swyddi sy'n diflannu" mewn gwirionedd yn fwy tebygol o fod ag angen sgil ddigidol na'r rhai sydd fwyaf tebygol o dyfu. Mae hynny oherwydd bod yna swyddi a ragwelir fel rhai diogel heb fod ag angen llawer o sgiliau digidol ar hyn o bryd – yn cynnwys athrawon a chogyddion.

Lle mae gwir angen sgiliau digidol, maent yn amlwg yn wahanol mewn swyddi sy'n debygol o dyfu a swyddi sy'n debygol o leihau. Yr hyn sy'n gosod sgiliau digidol 'addas ar gyfer y dyfodol' ar wahân yw eu defnyddioldeb ar gyfer tasgau heb drefn reolaidd, datrys problemau a chreu cynnwys digidol.

Pobl a Pheiriannau

Mewn gair, os nad ydych yn gwneud dim mwy na mewnbynnu data, gall y bydd robot cyn bo hir yn medru gwneud y swydd hon yn eich lle. Ond os yr ydych yn creu rhywbeth gyda'r data hwnnw, mae eich swydd nid yn unig yn llai tebygol o ddiflannu ond rhagwelwn y bydd yn dod yn fwy pwysig. Gwelir sgiliau animeiddio, cynhyrchu amlgyfryngau a pheirianneg dylunio hefyd fel swyddi diogel eu dyfodol, tra nad oedd sgiliau clerigol megis teipio a phrosesu anfonebion yn perfformio cystal.

Ychydig iawn a olyga'r data hwn os caiff ei gyrchu'n unig gan yr elit. Yr un mor bwysig â'r bras argymhellion hyn yw bod myfyrwyr a'r rhai sy'n chwilio am swyddi yn deall mwy am ble bydd y cyfleoedd gyrfa ar eu gorau – a'r mathau o sgiliau, digidol a'r rhai mwy 'dynol' a werthfawrogir gan gyflogwyr.

Un ffordd o wneud hyn efallai fydd drwy ddefnyddio '[tacsonomeg sgiliau](#)' ar gyfer y DU. Rydyn ni wedi dylunio un yn Nesta sy'n ein helpu i ddeall – gan ddefnyddio hysbysebion swyddi go iawn – sut mae sgiliau'n cysylltu â'i gilydd, pa swyddi sydd eu hangen, a hyd yn oed faint y gallent ychwanegu at eich cyflog. Dylai dulliau o weithio fel y rhain helpu i roi'r pŵer yn ôl i bobl fel y gallant benderfynu ar yr hyn y maent yn dymuno i'w dyfodol fod.